



BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
CWM TAF
PUBLIC
SERVICES
BOARD

Datganiad i'r Wasg

Dan embargo llym tan 00.01 ddydd Iau 3 Mai 2018

Sefydliadau ledled Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn uno i lansio'r Cynllun Llesiant cyntaf ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

[Mae cynllun pum mlynedd](#) i ddatblygu mwy o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, rhoi dechrau gwell mewn bywyd i fabanod, a gwella iechyd meddwl pobl ifanc wedi'i lansio gan gasgliad o sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ledled Cwm Taf.

Mae 'Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf' yn cynnwys sefydliadau o bob rhan o Ferthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys y bwrdd iechyd, awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth tân, y sector gwirfoddol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gwasanaeth prawf.

Sefydlwyd y Bwrdd ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol basio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n chwyldroi sut y mae gwasanaethau cyhoeddus lleol yn cael eu cynllunio a'u cyflawni ar gyfer y dyfodol.

Y nod yw symud y pwyslais oddi wrth sefydliadau unigol yn ymateb i broblemau cymdeithasol cymhleth, i ddatrys y problemau ar y cyd.

Bydd y Cynllun Llesiant yn cael ei gyhoeddi heddiw (3 Mai) ac mae'n defnyddio dull wedi'i seilio ar le, sy'n galluogi'r holl bartneriaid i gydweithio'n fwy effeithiol â thrigolion i nodi materion, blaenoriaethau ac atebion posibl mewn ardaloedd a dargedwyd.

Mae Glynrhedynog/Tylorstown yn Rhondda a'r Gurnos ym Merthyr Tudful wedi'u nodi'n ddwy ardal lle caiff y cynllun ei dreialu ac os bydd y dull yn llwyddiannus, caiff ei gyflwyno i gymunedau eraill ledled Cwm Taf.

Mae tyfu gweithlu'r dyfodol yn rhan allweddol o'r Cynllun Llesiant, yn arbennig darparu mwy o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y sefydliadau sector cyhoeddus sy'n rhan o'r Bwrdd, er mwyn helpu i ddatblygu gweithlu medrus a chynaliadwy yn lleol.

Amcan allweddol arall yw canolbwyntio ar 1000 diwrnod cyntaf baban – o feichiogrwydd i 2 flwydd oed. Bydd adolygiad o'r gwasanaethau presennol yn cael ei gynnal i ddarganfod beth sydd angen ei newid er mwyn cynnig gwell cymorth i rieni newydd a babanod.

Bydd y Cynllun Llesiant hefyd yn ceisio canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar i leihau'r angen am wasanaethau plant a phobl ifanc, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, a datblygu gwasanaethau mwy integredig sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd, cymdeithasol ac ysgolion yn yr ardal.

Bydd ymgyrchoedd newid ymddygiad i annog ffyrdd iachach o fyw a chynnig cymorth yn dechrau hefyd yn y sefydliadau eu hunain trwy draws-hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ymhlith miloedd o staff lleol.

Dywedodd **Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Athro Marcus Longley** – sydd hefyd yn gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, "Mae'r cynllun hwn yn ymwneud â sut yr ydym yn gwella pethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn sicrhau bod y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud heddiw yn ystyried y tymor hirach er eu lles nhw. Er bod llawer o gydweithio eisoes ar draws ein sefydliadau, bydd y dull ar y cyd hwn yn cael ei ymwreiddio'n wirioneddol yn y ffordd yr ydym yn dod o hyd i atebion i rai o'r materion gwirioneddol heriol yn ein cymunedau, na all yr un ohonom fynd i'r afael â nhw yn unigol. Rwy'n falch iawn o gael cyhoeddi'r Cynllun Llesiant heddiw, ac rwy'n ymwybodol iawn mai megis dechrau y mae'r gwaith caled o gyflawni gwelliannau go iawn a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl."

Dywedodd **Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru**: "Gall materion cymunedol fod yn eang iawn, ac anaml y cânt eu datrys yn effeithiol gan un asiantaeth ar ei phen ei hun. Mae'r cynllun yn paratoi'r ffordd at ddull cydweithredol o ddatrys

problemau a fydd yn helpu i sicrhau bod effaith atebion yn parhau ac yn gwella ansawdd bywyd a rhagolygon y dyfodol i bobl sy'n byw yn ardal Cwm Taf."

Dyweddodd **Cadeiryddion Interlink a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful – Pauline Richards ac Anne Roberts**, "Rydym yn croesawu'r bwriad i wneud ein cymunedau yn lleoedd gwell i fyw. Rydym yn gwybod bod mwy o bobl nag erioed yn teimlo'n unig neu wedi'u hynysu ac mae hyn yn arwain at iechyd corfforol ac emosiynol gwael. Gallwn wneud hyn trwy atgyfnerthu ein cymorth i bobl yn ein cymunedau a chynyddu'r niferoedd sy'n gwirfoddoli."

Dyweddodd **Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Chris Bradshaw**: "Rydym yn edrych ymlaen at wella'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gyda'n partneriaid er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful."

Dyweddodd **Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y Cynghorydd Kevin O'Neill**: "Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi bod yn bartner allweddol ers sefydlu'r Bwrdd; mae gweithio mewn partneriaeth yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Rydym yn gwbl ymrwymedig i wneud bywyd yn well i'n holl gymunedau a bydd y Cynllun hwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r nod hwn."

Mae gwefan o'r enw ['Ein Cwm Taf'](#) wedi'i datblygu, sy'n rhoi gwybodaeth am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl sefydliadau sy'n rhan ohono, yn dangos y gwaith y maen nhw'n ei wneud ar y cyd, ac yn rhoi gwybodaeth allweddol am yr ardaloedd sy'n rhan o Gwm Taf.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am gyfweliadau/cyswllt â'r cyfryngau, cysylltwch â Felicity Waters, Pennaeth Cyfathrebu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ewch i <https://futuregenerations.wales/cy>

Nodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw:

- Gwella ansawdd bywyd a chanlyniadau i ddinasyddion ardaloedd Cwm Taf, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
- Darparu arweinyddiaeth i ymdrin â'r materion mwyaf heriol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus trwy gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau i ddinasyddion Cwm Taf.
- Ysgogi trafodaeth, cydgysylltiad a chydweithrediad rhwng sefydliadau sector cyhoeddus lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella ac integreiddio darpariaeth gwasanaethau i'r dinesydd.
- Ystyried 'gwerth gorau' a doethineb wrth wario adnoddau gwasanaethau cyhoeddus ac archwilio meysydd lle byddai cydweithredu/integreiddio yn darparu mwy o effeithlonrwydd a chanlyniadau gwell; a chynnwys dinasyddion er mwyn iddynt ddylanwadu ar sut yr ydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yr Amcanion Llesiant yw:

**** Defnyddio cryfderau ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, i ymdrin yn fwy effeithiol ag unigedd ac ynysu, sydd i'w gweld yn aml yn llawer o'n cymunedau.***

**** Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cydnerth a ffyniannus, gan wella llesiant trigolion ac ymwelwyr a datblygu ein hasedau cymunedol;***

**** Helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau;***

**** Meithrin economi leol gryf â thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.***